Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **2 Chwefror 2026** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Cyng. John Wyn Williams (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes (Maer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Nigel Pickavance a'r Cyng. Jackie Spence.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**22/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer) a'r Cyng. Gwynant Roberts.

**23/25 DATGANIAD O ARIANNOL DIDDORDEB NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**24/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 8 RHAGFYR 2025**

**PENDERFYNWYD:** derbyn y cofnodion o gyfarfod 8 Rhagfyr 2025, fel cofnod gwir a chywir

o'r cyfarfod.

**25/25 DERBYN DIWEDDARIAD AM YR ADNEWYDDU STRWYTHUROL I'R PIER.**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dinesig ddiweddariad i'r Cyngor am yr Adnewyddu i Strwythurau'r Pier.

Eglurodd fod un cam o'r gwaith ar fin dod i ben ac y bydd y cam olaf yn dechrau o fewn y misoedd nesaf. Bydd cost bellach i gael gwared ar y sgaffaldiau o'r cyfnod presennol ac o godi sgaffaldiau ar gyfer cyfnod olaf y gwaith adnewyddu. Argymhellwyd gan y Swyddog Prosiect fod y strwythur dur yn cael ei chwythu â thywod a'i beintio gyda phaent gwarchodol a gwydn. Bydd hyn yn sicrhau fod gan yr is-strwythur oes o 15 i 20 mlynedd cyn bydd angen dechrau unrhyw waith adnewyddu mawr arall. Hyn cyn belled â bod gwaith cynnal a chadw ac archwiliadau blynyddol yn digwydd.

Mae'r Swyddog Prosiect yn dal gobeithio gorffen y gwaith adnewyddu ar ddiwedd Mai 2026, pryd y dylai'r swyddog fod yn ymddeol o'i gyflogaeth gyda Chyngor y Ddinas. Er mwyn helpu â'r chwythu tywod a'r peintio, mae'r Swyddog Prosiect wedi cytuno i ddychwelyd ym mis Gorffennaf 2026; fodd bynnag, y tro hwn, bydd yn cael ei gyflogi fel contractwr yn unig, i oruchwylio'r gwaith.

Aeth y Cyfarwyddwr Dinesig yn ei flaen i egluro, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladau (Dylunio a Rheoli) 2015, y bydd angen dychwelyd y caban a symudwyd o faes parcio'r Pier yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd hwn yn darparu cyfleusterau digonol i'r gweithwyr.

**26/25 TRAFOD Y COFNOD GWEITHREDU ASEDAU**

*Roedd y Cofnod Gweithredu Asedau diweddaraf wedi'i gylchredeg i'r aelodau o flaen llaw.*

Trafododd y Pwyllgor nifer o eitemau ar y Cofnod Gweithredu a chawsant wybod am rai eitemau a oedd wedi'u hychwanegu gan Gyfarwyddwr y Ddinas ers y cyfarfod diwethaf. Dyma rai o'r eitemau a nodwyd:-

- Cynnydd ar y cyfathrebu rhwng Cyngor y Ddinas a Byw yn Iach ynghylch trosglwyddo asedau Maes Chwarae Ffordd y Traeth.
- Ailsefydlu Parc Chwarae'r Pier a gafodd ei ddileu ar sail iechyd a diogelwch.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 yh**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR